OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 1882

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Atodol Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 2002

**Rhesymau dros wrthod**

**6.**—(1) Dyma'r rhesymau pan y gall Awdurdod Iechyd wrthod cynnwys meddyg ar ei restr atodol—

(a) bod yr Awdurdod Iechyd ag yntau wedi ystyried y datganiad sy'n ofynnol o dan reoliad 4(4) a (5) ac unrhyw wybodaeth arall yn eu meddiant mewn perthynas â'r cais hwn, yn ystyried ei bod yn anaddas cynnwys y meddyg ar y rhestr;

(b) bod yr Awdurdod Iechyd ag yntau wedi gwirio'r wybodaeth a ddarparwyd gan y meddyg o dan reoliad 4(2)(e) ac (f) yn ystyried bod yr ymarferydd yn anaddas i gael ei gynnwys ar y rhestr;

(c) bod yr Awdurdod Iechyd ag yntau wedi cysylltu â'r canolwyr a ddarparwyd gan y meddyg o dan reoliad 4(2)(i), yn anfodlon â'r tystlythyrau;

(ch) bod yr Awdurdod Iechyd, ag yntau wedi gwirio â Gwasanaeth Gwrth Dwyll y Gwasanaeth Iechyd ynghylch unrhyw ffeithiau y maent yn eu hystyried yn berthnasol sy'n ymwneud ag ymchwiliadau ynghylch twyll ynghylch y meddyg naill ai yn y gorffennol neu yn y presennol, ac yntau wedi ystyried y rhain ac unrhyw achos o dwyll sy'n ymwneud â'r meddyg, yn ystyried bod y rhain yn cyfiawnhau gwrthod o'r fath;

(d) bod yna le i gredu y byddai cynnwys yr ymarferydd ar y rhestr yn niweidio effeithlonrwydd y gwasanaeth y byddai'r meddyg yn ei gyflawni;

(dd) pan fo'r meddyg wedi'i gofrestru yn y gofrestr o ymarferwyr meddygol yn ddarostyngedig i amodau a osodwyd yn unol â—

(i) chyfeiriad gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol o dan adran 36 o'r Ddeddf Feddygol,

(ii) at gyfeiriad gan y Pwyllgor Iechyd o dan adran 37 o'r Ddeddf honno,

(iii) gorchymyn gan y naill neu'r llall o'r pwyllgorau hynny neu'r Pwyllgor Achosion Rhagarweiniol o dan adran 42 o'r Ddeddf honno,

(iv) cyfeiriad y Pwyllgor Perfformiad Proffesiynol o dan adran 36A o'r Ddeddf honno(**1**).

(2) Dyma'r rhesymau pan y gall Awdurdod Iechyd wrthod cynnwys meddyg ar ei restr atodol—

(a) nad yw'r meddyg am dri o'r chwe mis diwethaf, wedi darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol yn ei faes, neu wedi darparu tystiolaeth foddhaol bod y meddyg yn bwriadu darparu gwasanaethau yn ei faes;

(b) bod y meddyg ar restr gwasanaethau neu restr feddygol unrhyw Awdurdod Iechyd yn Lloegr oni bai fod y meddyg hwnnw wedi hysbysu'n ysgrifenedig bod y meddyg yn dymuno tynnu ei enw oddi ar y rhestr honno;

(**1**) Mewnosodwyd adran 36A gan Ddeddf (Perfformiad Proffesiynol) 1995 p.51.

(c) bod y meddyg ar restr atodol unrhyw Awdurdod Iechyd arall yn Lloegr oni bai fod y meddyg wedi hysbysu'n ysgrifenedig bod y meddyg yn bwriadu tynnu ei enw oddi ar y rhestr honno;

(ch) os nad yw'n fodlon bod y meddyg yn meddu ar y profiad addas o fewn ystyre adran 31;

(d) os nad yw'n fodlon bod gan y meddyg wybodaeth o'r Saesneg sydd, er budd y meddyg ei hun a'i gleifion, yn angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol yn ei faes;

(dd) pan fo'r meddyg wedi'i euogfarnu yn y Deyrnas Unedig o lofruddiaeth;

(e) pan, ar ôl y dyddiad pan ddaw'r rheoliad hwn i rym, bod y meddyg wedi'i euogfarnu yn y Deyrnas Unedig o dramgwydd droseddol ac wedi'i ddedfrydu i gyfnod mewn carchar o dros chwe mis;

(f) pan fo'r meddyg wedi'i anghymhwyso'n genedlaethol;

(ff) pan nad yw'r meddyg wedi diweddaru cais y meddyg yn unol â rheoliad 7(4);

(g) pan nad yw'r meddyg yn hysbysu'r Awdurdod Iechyd o dan reoliad 15(5) bod y meddyg yn dymuno cael ei gynnwys yn y rhestr yn ddarostyngedig i'r amodau a nodwyd.

(3) Cyn dod i benderfyniad ar y cais, bydd yr Awdurdod Iechyd yn—

(a) gwirio, i'r graddau y bo hynny'n ymarferol, yr wybodaeth a ddarparwyd gan y ceisydd, yn arbennig yr hyn a ddarparwyd o dan reoliad 4(2)(e) ac (f), 4(4) a 4(5), gan gynnwys bwrw golwg ar y dogfennau perthnasol; a

(b) gwirio gyda Gwasanaeth Gwrth Dwyll y Gwasanaeth Iechyd Gwladol am unrhyw achos o dwyll.

(4) Pan fo'r Awdurdod Iechyd yn ystyried gwrthod meddyg o dan baragraff (1) neu (2) bydd yn ystyried yr holl ffeithiau sydd yn ei farn ef yn berthnasol, a bydd yn ystyried yn arbennig mewn perthynas â pharagraff (1)(a), (ch) neu (d) uchod—

(a) natur unrhyw dramgwydd, ymchwiliad neu ddigwyddiad;

(b) yr amser a aeth heibio ers i dramgwydd neu ddigwyddiad o'r fath gael ei chyflawni ac ers unrhyw euogfarn neu ymchwiliad;

(c) p'un a oes unrhyw dramgwyddau, digwyddiadau neu ymchwiliadau eraill i'w hystyried;

(ch) unrhyw weithred neu gosb a osodwyd gan gorff trwyddedu neu reoleiddiol neu gorff arall, yr heddlu neu'r llysoedd o ganlyniad i'r tramgwydd, digwyddiad neu ymchwiliad;

(d) pa mor berthnasol yw unrhyw dramgwydd, ymchwiliad neu ddigwyddiad i ddarpariaeth y meddyg o wasanaethau meddygol cyffredinol ac unrhyw berygl tebygol i gleifion y meddyg neu i gyllid cyhoeddus;

(dd) p'un a oedd unrhyw dramgwydd yn dramgwydd y mae Rhan I o Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 1997(**2**) yn gymwys;

(e) p'un a yw'r meddyg wedi cael ei wrthod rhag cael ei gynnwys neu wedi'i gynnwys yn amodol, wedi cael ei dynnu, ei dynnu'n amodol, neu ar hyn o bryd wedi'i atal dros dro o unrhyw un o restrau'r Awdurdod Iechyd neu restrau cyfatebol, ac os felly, y ffeithiau yn yr achosion hynny a'r rhesymau a roddwyd gan yr Awdurdod Iechyd neu gorff cyfatebol dan sylw; a

(f) p'un a oedd y meddyg ar y pryd, wedi bod yn ystod y chwe mis blaenorol, neu yr oedd ar adeg y digwyddiadau gwreiddiol yn gyfarwyddwr corff corfforaethol gwrthodwyd ei gynnyws, ei gynnwys yn amodol, ei dynnu neu ei dynnu am y tro oddi ar restrau Awdurdodau Iechyd eraill neu restrau cyfatebol, neu sydd ar hyn o bryd wedi'i atal dros

(**2**) 1997 p. 51.

dro oddi ar restrau o'r fath, ac os ydyw, beth oedd y ffeithiau yn yr achosion hynny a pha resymau a roddwyd gan yr Awdurdod Iechyd neu gorff cyfatebol yn yr achos.

(5) Pan fo'r Awdurdod Iechyd yn cymryd i ystyriaeth y materion a nodwyd ym mharagraff (4), byddant yn ystyried effaith gyffredinol yr holl faterion sy'n cael eu hystyried.

(6) Wrth wrthod cynnwys meddyg ar ei restr, bydd yr Awdurdod Iechyd yn hysbysu'r meddyg o'i benderfyniad a'r rhesymau drosto (gan gynnwys unrhyw ffeithiau y dibynnwyd arnynt), ac o unrhyw hawl i apelio o dan reoliad 15 yn erbyn penderfyniad yr Awdurod Iechyd.